**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 01 MEDI 2020**

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes)

**Amser Dechrau:** 13:00
**Amser Gorffen:** 14:30

**Ymddiheuriadau:**

Mrs Julie May

**1. Datganiadau o Fuddiant**

Datganwyd buddiant gan David Powell a Rhys Brooks, fel trigolion Caerdydd.

**2. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 05 Awst 2020**

2.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o’r materion a ystyriwyd, yn amodol ar nifer o fân ddiwygiadau.

**3. Arolwg Etholiadol Wrecsam – Adroddiad Terfynol**

3.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 21 Awst 2020 gan y Swyddog Arolygon.

3.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a chynigiodd enwau ar gyfer wardiau etholiadol.

3.3. **Cytunwyd** ar yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau i’w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau’r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau – 56</u>**

3.4. Enwau:

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Isod, ceir rhestr o'r enwau cytûn yn Gymraeg a Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Rossett | Yr Orsedd |
| Llay | Llai |
| Acrefair North | Gogledd Acre-fair |
| Cefn East | Dwyrain Cefn |
| Cefn West | Gorllewin Cefn |
| Llangollen Rural | Llangollen Rural |
| Penycae | Pen-y-cae |
| Penycae and Ruabon South | Pen-y-cae a De Rhiwabon |
| Ruabon | Rhiwabon |
| Brymbo | Brymbo |
| Esclusham | Esclusham |
| Pant and Johnstown | Pant a Johnstown |
| Minera | Y Mwynglawdd |
| Ponciau | Ponciau |
| Rhos | Rhos |
| Bryn Cefn | Bryn Cefn |
| Gwenfro | Gwenfro |
| Gwersyllt North | Gogledd Gwersyllt |
| Gwersyllt East | Dwyrain Gwersyllt |
| Gwersyllt South | De Gwersyllt |
| Gwersyllt West | Gorllewin Gwersyllt |
| New Broughton | New Broughton |
| Cartrefle | Cartrefle |
| Gresford East and West | Dwyrain a Gorllewin Gresffordd |
| Holt | Holt |
| Queensway | Queensway |
| Smithfield | Smithfield |
| Whitegate | Whitegate |
| Wynnstay | Wynnstay |
| Brynffynnon | Brynffynnon |
| Erddig | Erddig |
| Hermitage | Hermitage |
| Offa | Offa |
| Bangor Is-y-Coed | Bangor Is-y-Coed |
| Bronington and Hanmer | Bronington a Hanmer |
| Overton and Maelor South | Overton a De Maelor |
| Acton and Maesydre | Gwaunyterfyn a Maes-y-dre |
| Borras Park | Borras Park |
| Little Acton | Little Acton |
| Rhosnesni | Rhosnesni |

## 4. Arolwg Etholiadol Caerdydd – Adroddiad Terfynol

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Awst 2020 gan y Swyddog Arolygon.

4.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a chynigiodd enwau ar gyfer wardiau etholiadol.

4.3. **Cytunwyd** ar yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau – 79</u>**

4.4. Enwau:

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Isod, ceir rhestr o'r enwau cytûn yn Gymraeg a Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Adamsdown | Adamsdown |
| Cathays | Cathays |
| Gabalfa | Gabalfa |
| Plasnewydd | Plasnewydd |
| Riverside | Glanyrafon |
| Cyncoed | Cyncoed |
| Llanrumney and Old St Mellons | Llanrhymni a Phentref Llaneirwg |
| Pentwyn | Pentwyn |
| Penylan | Penylan |
| Pontprennau | Pontprennau |
| Rumney | Tredelerch |
| Trowbridge | Trowbridge |
| Pentyrch and St Fagans | Pentyrch a Sain Ffagan |
| Radyr | Radur |
| Heath | Y Mynydd Bychan |
| Lisvane and Thornhill | Llys-faen a'r Ddraenen |
| Llanishen | Llanisien |
| Rhiwbina | Rhiwbeina |
| Whitchurch and Tongwynlais | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais |
| Butetown | Butetown |
| Grangetown | Grangetown |
| Splott | Y Sblot |

## 5. Arolwg Etholiadol Caerffili – Adroddiad Terfynol

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Awst 2020 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a chynigiodd enwau ar gyfer wardiau etholiadol.

5.3. **Cytunwyd** ar yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau – 69</u>**

5.4. Enwau:

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Isod, ceir rhestr o'r enwau cytûn yn Gymraeg a Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Aber Valley | Cwm Aber |
| Aberbargoed and Bargoed | Aberbargoed a Bargoed |
| Blackwood | Coed-duon |
| Cefn Fforest and Pengam | Cefn Fforest a Phengam |
| Gilfach | Gilfach |
| Crosskeys and Ynysddu | Crosskeys ac Ynys-ddu |
| Penmaen | Pen-maen |
| Pontllanfraith | Pontllanfraith |
| Darran Valley | Cwm Darran |
| Moriah and Pontlottyn | Moriah a Phontlotyn |
| New Tredegar | Tredegar Newydd |
| Twyn Carno | Twyncarno |
| Hengoed | Hengoed |
| Llanbradach | Llanbradach |
| St Cattwg | Sant Cattwg |
| Ystrad Mynach | Ystrad Mynach |
| Bedwas and Trethomas | Bedwas a Threthomas |
| Machen and Rudry | Machen a Rhydri |
| Morgan Jones | Morgan Jones |
| St Martins | Sant Martin |
| Van | Y Fan |

**6. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall – Diweddariad o'r Cyfarfod gyda'r Gweinidog**

6.1. Rhoddodd y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr ddiweddariad o’r cyfarfod gyda’r Gweinidog.

6.2. Nodwyd bod y Gweinidog wedi canmol y nodiadau briffio a anfonwyd at swyddogion pan gyhoeddir yr Argymhellion Terfynol.

6.3. Canmolodd y Gweinidog y Comisiwn am ei waith caled a’i gynnydd mewn perthynas â’r Rhaglen Arolygon Etholiadol.

6.4. Mynegodd y Gweinidog ddiddordeb yn lles staff yn y Comisiwn. Sicrhawyd y Gweinidog gan y Cadeirydd fod mesurau priodol ar waith, o ran trefniadau gweithio a’r amgylchedd gweithio, yn yr hinsawdd sydd ohoni.

6.5. Dywedodd y Gweinidog y cafwyd adborth cadarnhaol, gan gynghorau, ynglŷn â rôl y Comisiynydd Arweiniol.

6.6. Awgrymwyd porth newydd ar gyfer y rhaglen arolygon nesaf. Nodwyd y gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol at ddibenion cael mynediad at adroddiadau.

6.7. Hysbyswyd y Gweinidog, erbyn diwedd 2020, y bydd tri adroddiad yn aros. Pwysleisiodd y Gweinidog y cynnydd da y mae’r Comisiwn wedi’i wneud gyda’r Rhaglen Arolygon Etholiadol.

6.8. Trafodwyd y cylch nesaf o arolygon gyda’r Gweinidog. Yn y drafodaeth hon, amlygwyd gwersi a ddysgwyd, ac arferion gorau o Loegr a’r Alban.

6.9. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi a’r Pennaeth Polisi a Rhaglenni wedi crynhoi’r wybodaeth berthnasol i ddangos llinellau amser adroddiadau ac adborth a dderbyniwyd.

6.10. Dywedodd y Prif Weithredwr fod deiseb wedi’i chyflwyno gan Yr Hob a Chaergwrle o ganlyniad i arolwg a chynigion Sir y Fflint. Mae’r Prif weithredwr a’r Pennaeth Polisi a Rhaglenni wedi darparu gwybodaeth a’r adroddiad opsiynau, mewn perthynas â hyn.

6.11. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod un arolwg, sef yr arolwg ar gyfer Ceredigion, wedi derbyn penderfyniad gweinidogol hyd yma.

## 7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 13 Hydref 2020